# Crynodeb o'r papur gweithredu: Sbwriel o'r Tir sy'n Llygru'r Môr

Yn 2009, amcangyfrifodd cyd-gomisiwn y Cenhedloedd Unedig fod 6.4 miliwn tunnell fetrig o wastraff plastig yn llygru ein moroedd ar hyn o bryd. Mae sbwriel yn y môr bellach yn fygythiad cynyddol a sylweddol i'n hamgylchedd dyfrol ac arfordirol, gan achosi risg ddifrifol i fywyd gwyllt, i iechyd pobl ac i'n heconomi.

Mae oddeutu 80% o'r sbwriel a geir yn ein moroedd yn codi o ganlyniad i ffynonellau ar y tir. Felly, er mwyn mynd i'r afael â sbwriel yn y môr, mae'n hynod bwysig edrych ar sut y mae gweddillion o ffynonellau ar y tir yn mynd i mewn i'n hafonydd a'n moroedd. Er bod mynd i'r afael â gweddillion o longau yn galw am gytundebau rhyngwladol, gellir lleihau sbwriel o ffynonellau ar y tir drwy reoli gwastraff a strategaethau ailgylchu cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae arloesi ac ymgyrchoedd effeithiol megis The Ocean Clean Up ochr yn ochr â phrosiectau trawswladol megis MARLISCO a MICRO, a gwobrau arfordirol, yn annog gwell rheolaeth ar draethau ac ardaloedd arfordirol. Fodd bynnag, oherwydd maint y broblem rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ddull gweithredu sy'n cwmpasu gweithgynhyrchu, dosbarthu, defnydd a gwaredu.

Mae cyfraddau ailgylchu'n amrywio'n fawr iawn ar draws gogledd Ewrop, yn ymestyn rhwng 80% - 25%. Mae'r cyfraddau yng Nghymru yn 53% ac maent yn unol â'r targed o gyrraedd sefyllfa ddiwastraff erbyn 2050. Er gwaethaf y ffaith fod cyfraddau ailgylchu ar i fyny, mae llawer mwy i'w wneud i annog a sicrhau bod y duedd hon yn parhau - yn enwedig yng nghyswllt plastigion. I Gymru gyflawni ei nod o fod yn Genedl Ddiwastraff, bydd angen dull gweithredu cyfun sydd hefyd yn cwmpasu lleihau ac ail-ddefnyddio. Yng nghyd-destun sbwriel yn y môr, mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â gwastraff niweidiol yn ei darddle ac mae deialog gyda diwydiant yn hanfodol. Mae angen hefyd am fwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o sbwriel yn y môr a'i effaith.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn datblygu Strategaeth Economi Gylchol gyda'r nod o "weddnewid Ewrop a'i throi'n economi fwy cystadleuol, effeithiol o ran adnoddau, gan fynd i'r afael ag ystod o sectorau economaidd, yn cynnwys gwastraff". Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra i weithredu Strategaeth Forol y DU dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (2008/56/EC) (MSFD). Mae llawer o wledydd wedi cymryd camau ar lefel genedlaethol a than sefydliadau rhanbarthol, megis OSPAR, i fynd i'r afael â'r broblem o sbwriel yn y môr. Mae Thema B Cynllun Gweithredu Rhanbarthol

OSPAR yn cynnwys gweithgaredd i fynd i'r afael â ffynonellau ar y tir sy'n creu sbwriel sy'n llygru'r Môr ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud ag ymgysylltu â diwydiant i hyrwyddo cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

I effeithio ar yr hyn sy'n mynd i mewn i'n moroedd bydd angen cysylltu'r canlynol: uchelgais economi gylchol a thargedau dim gwastraff, gydag ymchwil pellach, atal effeithiol, addysg ar lwybrau ac effeithiau sbwriel, a chymryd camau'n lleol.

Er bod materion cysylltiedig ag Ansawdd ein Hamgylchedd Lleol (LEQ) wedi gwella rhywfaint mewn blynyddoedd diweddar, mae sbwriel yn ein hamgylchedd morol yn parhau i waethygu. Mae Cadwch Gymru'n Daclus o'r farn y dylid ystyried integreiddio mwy ar y mater ym mhob deddfwriaeth berthnasol fel y gellir ystyried y mater wrth weithio gyda strategaethau ar y tir ac fel y gellir codi ymwybyddiaeth am effaith arferion ar yr amgylchedd morol. Yn benodol, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn galw am y canlynol:

- I Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Weithredu LEQ Integredig i Gymru. Byddai hyn yn dwyn ynghyd bob lefel o Lywodraeth, busnes a'r trydydd sector i ymrwymo i broses o leihau graddfa ac effaith sbwriel ar ein hamgylchedd, ein heconomi a'n lles.
- Sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Sbwriel Môr
- Mwy o ymchwil i ddeall llwybrau sbwriel i mewn i'r system ddyfrol
- Dull newydd i greu ymgyrch ymwybyddiaeth a chynlluniau addysgol effeithiol a chynaliadwy a fydd yn arwain at newid parhaus mewn ymddygiad.
- Mwy o drafod a gweithredu gyda diwydiannau priodol.

**Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jemma Bere, Rheolwr Polisi ac Ymchwil, Cadwch Gymru'n Daclus, ceir ei manylion isod.**

**E-bost:** Jemma.Bere@keepwalestidy.cymru

**Ffôn: 07769 708980**